"Nid oes dim sy'n mynd i mewn i rywun o'r tu allan iddo yn gallu ei halogi; ond y pethau sy'n dod allan o rywun, dyna sy'n ei halogi."
(Marc 7.15)

Dyma osodiad rhyfeddol a chwyldroadol gan y Gwaredwr ynglŷn â tharddiad drygioni ac aflendid ysbrydol mewn pobl. Mae'r Arglwydd Iesu yn dweud fod y ffynhonnell yng nghalon dyn, tra bod yr Iddewon wedi credu mai dylanwadau allanol oedd yn halogi person.

Y golchi seremoniol

Roedd arbenigwyr o blith Phariseaid ac ysgrifenyddion o Jerwsalem wedi dod i ardal Galilea, o bosib i gael golwg ar Iesu o Nasareth a'i ddisgyblion. Maen nhw'n sylwi nad yw Iesu'n dysgu ei ddisgyblion i olchi eu dwylo yn seremoniol cyn bwyta.

Nid deddf o'r Deg Gorchymyn na Phumllyfr Moses fyddai hon, ond dehongliad manwl gan ysgrifenyddion y 5ed a'r 4edd ganrif cyn Crist a ysgrifennwyd i lawr yn ddiweddarach yn y 3edd ganrif C.C. ac a alwyd yn *'Mishnah'*. Dyma beth oedd **'traddodiad yr hynafiaid'** oedd yn cael yr un parch â'r Ysgrythur. Gallem ddweud ei fod yn debyg i 'draddodiad' yr Eglwys Babyddol, sydd yn cael parch cyfwerth â'r Ysgrythurau, neu unrhyw draddodiad yn ein Heglwysi ni sydd yn cario awdurdod fel y Beibl.

Roedd rhaid golchi'r dwylo cyn pob pryd a rhwng cyrsiau hefyd. Roedd raid i'r dwylo fod yn glir o unrhyw dywod neu fortar. Roedd y dŵr yn seremoniol lân, ac yn cael ei gadw mewn potiau arbennig. Yn gyntaf, roedd rhaid arllwys dŵr dros y dwylo, o leiaf at yr arddwrn, tra'u bod yn pwyntio i fyny. Roedd raid golchi dwy law gyda dwrn y llaw arall. Yn ail, roedd rhaid arllwys dŵr dros y dwylo tra'u bod yn pwyntio i lawr, fel bod y dŵr oedd wedi ei faeddu yn cael ei olchi i ffwrdd gan adael y dwylo'n lân. ***Nid glanweithdra oedd hyn, ond glendid seremoniol.*** Y syniad oedd bod yr Iddew wedi ei halogi ei hun yn y farchnad, oherwydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â Chenedlddynion. Felly, aflendid y Cenhedloedd oedd yn gwneud yr Iddew yn aflan gerbron Duw.

Corban

Ystyr y gair Corban yw 'rhodd'. Rhodd, megis arian neu eiddo, wedi ei neilltuo i Dduw, na ellid ei ddefnyddio i bwrpas arall. Mae'n amlwg bod rhai Iddewon yn defnyddio'r Corban fel modd i osgoi eu cyfrifoldebau tuag at eu rhieni (ac efallai tuag at eraill hefyd). Mae'n siŵr y byddai person yn cyhoeddi ei eiddo yn

Corban, yn gysegredig i Dduw. Yna, pan fyddai ei rieni mewn angen dybryd, byddai'n dweud na allai helpu, gan fod ei eiddo wedi ei sancteiddio i Dduw, fel petai hynny'n well yng ngolwg Duw na gofalu am rieni.

Rhagrith a phurdeb calon

Mae'r Arglwydd Iesu yn dweud mai rhagrith oedd hyn, fel eu dehongliad o'r pumed gorchymyn (8-12). Mae'n dweud yn glir mai cyflwr calon person sydd yn cyfrif gerbron Duw, ac ufudd-dod plaen i'w ddeddfau. Dywed fod pechod yn tarddu yn y galon, ac fod y tueddiad i bechu ynom eisoes. Nid dwylo glân neu ddillad glân sydd yn glanhau dyn gerbron Duw, ond calon lân. Er fod y disgyblion i weld yn araf yn deall hyn, roedd Dafydd wedi deall ganrifoedd ynghynt:

"Wele, yr wyt yn dymuno gwirionedd oddi mewn; felly dysg imi ddoethineb yn y galon… Crea galon lân ynof, O Dduw" (Salm 51.6,10).

Ac mae'n bwysig nad oes neb yn credu heresïau rhagrithiol heddiw chwaith. Er enghraifft, nid yw bedydd yn golchi ymaith ein pechod, er ei fod yn ddarlun o hynny. Ffydd yng ngwaed Mab Duw sydd yn dod â glanhad o bob pechod.

Difwyno cymeriad

Mae'r Arglwydd Iesu yn rhestru pechodau sydd yn ymwneud â'n cymeriad, gyda phwy ydym a beth a wnawn, ac nid gyda'n cyflwr allanol, arwynebol. Mae'n amlwg bod yr Arglwydd yn cyfeirio at bechodau sydd yn feddyliau yn ogystal ag yn weithredoedd.

Mae'n gwbl amlwg fod 'cynllunio drygionus', 'trachwantu', 'cenfigen' a 'balchder' yn agweddau meddwl sydd yn arwain at bechodau eraill. Ac yn y Bregeth ar y Mynydd mae Iesu yn dweud bod 'godineb' yn golygu meddwl yn anweddus am wraig neu ŵr rhywun arall, a bod egin 'llofruddiaeth' mewn casineb.

Calon newydd

Does dim rhyfedd fod y Beibl yn sôn am iachawdwriaeth fel cyfnewidiad sylfaenol a mewnol:

"Rhoddaf iddynt galon unplyg, ac ysbryd newydd ynddynt; tynnaf ohonynt y galon garreg, a rhoi iddynt galon gig" (Eseciel. 11:19).

"Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw." (Math.5.8)

"Y gwir lddew yw'r lddew cuddiedig, a'r gwir enwaediad yw enwaediad y galon, peth ysbrydol, nid llythrennol" (Rhuf. 2:29).